# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 12:30 ar 05 CHWEFROR 2021, dros Zoom.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Yr Athro Simon Banham; Dr Cathryn Charnell-White; Dr Hazel Davey; Mr Prysor Davies (hyd at gofnod 27); Dr Sarah Davies; Yr Athro Iain Donnison; Dr Rebecca Edwards; Dr Gwion Evans (o gofnod 27); Dr Sarah Higgins; Yr Athro Nigel Holt; Mr Penri James, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Mr Morgan Lewis, Llywydd UMCA; Mr Chris Loftus; Dr Alex Mangold (hyd at gofnod 27.16); Dr Louise Marshall; Mr David Moyle; Mr Nathaniel Pidcock, Llywydd UMAber; Yr Athro Eleri Pryse; Yr Athro Phillipp Schofield; Ms Chloe Wilkinson-Silk, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Dr Victoria Wright; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion. |
| Aelodau heb bleidlais: | Dr Guy Baron, Yr Athro Simon Cox; Dr Andrew Davies; Yr Athro Andrew Evans; Dr Patrick Finney, Dr Thomas Jansen; Dr Anoush Simon (o gofnod 27); a'r Athro Andrew Thomas. |
| Aelodau'r Bwrdd Academaidd: | Dr Stephen Atherton; Yr Athro Joanne Hamilton; a Dr Fred Long. |
| Yn gweinyddu: | Mrs Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd - Sicrhau a Gwella; Mr Tim Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth; Ms Helen Davies, Gweinyddwr Llywodraethu; Ms Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor (o gofnod 27); a Ms Emma Williams, Y Cofrestrydd Academaidd. |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Rachael Davey; Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Yr Athro Robert Meyrick; Mr John Morgan; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); a Ms Sarah Wydall.

## 25. MATERION A GODWYD GAN YR IS-GANGHELLOR

1. Y Bwrdd Academaidd

   Nid oedd aelodau'r Bwrdd Academaidd wedi cael cyfle i ystyried y diwygiadau a gynigiwyd i reoliadau ymlaen llaw cyn y cyfarfod arbennig hwn o'r Senedd. Felly roedd aelodau'r Bwrdd Academaidd nad oeddent yn aelodau o'r Senedd wedi'u gwahodd i'r cyfarfod, a chawsant eu hannog i gyfrannu i'r trafodaethau.

## 26. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni wnaed datganiad yn ystod y cyfarfod ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod. Ond ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben rhoddodd yr Athro Neil Glasser wybod

am wrthdaro buddiannau a rhoi sicrwydd ei fod wedi ymneilltuo o'r drafodaeth ar ôl iddo sylweddoli bod gwrthdaro ac nad oedd wedi cymryd rhan yn y bleidlais.

## 27. NEWIDIADAU I'R RHEOLIADAU A CHAMAU CYSYLLTIEDIG I YMATEB I'R PANDEMIG CORONAFEIRWS

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cofrestrydd Academaidd (SEN2021-036).

NODWYD

1. Yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academaidd a'r Senedd ym mis Tachwedd 2020 cytunwyd ar y camau lliniarol canlynol: byddai myfyrwyr yn dal i gael gwneud cais am estyniadau a chael eu hystyried yn unol â threfniadau 'Amgylchiadau Arbennig' heb fod angen cyflwyno tystiolaeth ategol a byddai'r 'Drws Trugaredd' o 2% a weithredwyd yn yr haf 2020 yn cael ei gadw ymlaen am 2020-21.

2. Er bod addasiadau i ddulliau dysgu ac asesu wedi eu rhoi yn eu lle am 2020-21, roedd yr ansicrwydd a'r amharu parhaus yn golygu bod angen gofyn i'r Senedd i ystyried addasiadau pellach am y flwyddyn hon. Roedd angen gwneud hyn i sicrhau nad oedd myfyrwyr yn dioddef anfantais sylweddol, wrth gynnal safonau academaidd ac uniondeb academaidd ar yr un pryd. Byddai'r cynnig yn caniatáu cyfleoedd pellach i wella perfformiad, yn ogystal â chadw'r rheol Drws Trugaredd ychydig yn fwy hael a gyflwynwyd y llynedd.

3. Wrth baratoi'r cynnig rhoddwyd ystyriaeth i ganllawiau mwyaf diweddar yr ASA; ymgynghorwyd â'r Deoniaid Cyswllt (Dysgu ac Addysgu), Cofrestryddion y Cyfadrannau, Swyddogion Sabothol Undeb y Myfyrwyr, ac Adolygydd Allanol y Senedd; cafodd Penaethiaid Adrannau hefyd eu gwahodd i roi sylwadau ar yr awgrymiadau cychwynnol mewn cyfarfod ar 19 Ionawr 2021.

4. Yr isod a gynigir ar gyfer Rhan Dau rhaglenni Baglor a Meistr Integredig ac israddedigion ar gynlluniau Gradd Sylfaen:

    a. Byddai myfyrwyr yn cael cynnig cyfleoedd ailsefyll heb eu capio (dangosydd H) yn achos methu neu beidio cyflwyno; rhaid cymryd y rhain ar y cyfle cyntaf sef, yn y rhan fwyaf o achosion, Awst 2021 oni bai bod ganddynt Amgylchiadau Arbennig ar yr adeg honno.

    b. Ni fyddai cap ar nifer y credydau y gall myfyrwyr eu ceisio ym mis Awst (byddai myfyrwyr a fethodd fwy nag 80 credyd yn cael dewis rhwng ceisio ailsefyll ym mis Awst neu ail-wneud y flwyddyn; byddai'r Gofrestrfa yn cysylltu â'r myfyrwyr ar ôl i'r canlyniadau gael eu rhyddhau er mwyn gwneud y cynnig hwn).

    c. Byddai myfyrwyr yn cael cynnig un cyfle pellach i wella marc unrhyw fodiwl a basiwyd, a byddai'n rhaid cymryd y cyfle ym mis Awst oni bai bod ganddynt Amgylchiadau Arbennig ar yr adeg honno. Byddai'n rhaid i fyfyrwyr gofrestru ym mis Gorffennaf pe byddent yn dymuno cymryd y cyfle hwn, sy'n cael ei roi ar sail 'dim anfantais': y marc uchaf fydd yn sefyll.

    d. Byddai myfyrwyr y flwyddyn olaf yn cael un cyfle i dderbyn neu wrthod dosbarth dangosol wrth i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi ar ddiwedd y sesiwn (dim ond yn

achos dyfarniadau â dosbarth mae hyn yn gymwys). Pan fydd dosbarth dangosol wedi cael ei dderbyn, bydd marciau modiwlau'n derfynol.

5. Byddai myfyrwyr Rhan Un rhaglenni Baglor a Meistr Integredig a blwyddyn gyntaf cynlluniau blwyddyn sylfaen yn cael cynnig cyfleoedd ailsefyll heb eu capio (dangosydd M) os ydynt wedi methu neu heb gyflwyno, ond NID i wella marc os ydynt wedi pasio. Ni fyddai cap ar nifer y credydau y gallai myfyrwyr eu ceisio ym mis Awst.

6. Byddai myfyrwyr cyrsiau Uwchraddedig a Ddysgir yn cael cynnig cyfleoedd ailsefyll heb eu capio (dangosydd H) os ydynt wedi methu neu heb gyflwyno ac un cyfle i wella marc ar unrhyw fodiwl a basiwyd, gan gynnwys traethawd hir. Byddai myfyrwyr y flwyddyn olaf am ddyfarniadau â dosbarth yn cael un cyfle i dderbyn neu wrthod eu dosbarth dangosol ym mis Mehefin neu fis Rhagfyr 2021.

7. Drws Trugaredd i israddedigion ac uwchraddedigion ar gyrsiau a ddysgir (dyfarniadau â dosbarth); byddai myfyrwyr a chanddynt gyfartaledd rhaeadr o fewn 2% i unrhyw ffin yn cael eu codi i'r dosbarth uwch cyhyd â'u bod yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer pwysau'r marciau a nodir yn y Confensiynau Arholiadau. Ni cheir Drws Trugaredd i amgylchiadau arbennig.

8. Roedd Adolygydd Allanol y Senedd yn gefnogol i'r hyn a gynigiwyd a nododd *'... Byddai'n annerbyniol creu sefyllfa lle byddai wedi bod yn well i fyfyriwr fod wedi methu asesiad na'i basio; ac os yw cyfle i ailsefyll heb ei gapio yn cael ei gynnig i rai a fethodd, yna rhaid i'r un peth fod yn gymwys i rai a basiodd does bosib?...'*

9. Cafodd y cynnig groeso gan Swyddogion Sabothol Undeb y Myfyrwyr a gadarnhaodd eu bod wedi cael cyfle i roi sylwadau wrth i'r drafft gael ei baratoi.

10. Cafwyd cefnogaeth i'r cynnig ar draws aelodaeth y Senedd. Byddai'r effaith ar lwyth gwaith y staff yn yr haf yn destun pryder sylweddol. Tynnwyd sylw at yr effaith ar iechyd meddwl ac amser ymchwil y staff. Roedd rhai grwpiau o staff yn fwy tebygol o gael eu heffeithio nag eraill, er enghraifft ymchwilwyr ar ddechrau gyrfa a'r rhai a gafodd gyngor i ganolbwyntio ymdrechion ar ddatblygu eu hymchwil i gael dyrchafiad; byddai hefyd yn cyfyngu'r amser ar gael i staff gymryd gwyliau blynyddol.

11. Nodwyd pa mor bwysig yw cyfathrebu da â myfyrwyr. Roedd yn hollbwysig i fyfyrwyr ddeall faint o waith oedd ei angen i wella marc, yn enwedig y rhai a oedd yn ystyried ailsefyll modiwlau a basiwyd. Roedd y llwyth gwaith cysylltiedig â chynghori myfyrwyr 'ynghudd' am fod y data o'r haf yn dangos y rhai a ail-safodd, ond nid oedd yn adlewyrchu nifer y myfyrwyr a ofynnodd am gyngor ac yna penderfynu peidio ag ailsefyll.

12. Nododd yr Is-Ganghellor y pryderon ynglŷn â'r llwyth gwaith, yr effaith ar ymchwil a'r effaith ar grwpiau penodol o staff, a byddai'n symud trafodaethau ynglŷn ag adnoddau ychwanegol yn eu blaen gyda'r Weithrediaeth.

13. Awgrymwyd y gallai cymryd agwedd llechen lan ddatrys pryderon nad oedd rhai myfyrwyr yn gweithio mor galed am eu bod yn gwybod y gallent wella eu marc yn nes ymlaen, er bod gwrth-ddadl i hyn, sef bod gwybod fod ganddynt rwyd diogelwch yn annog myfyrwyr eraill i gyflwyno mewn pryd yn hytrach na gohirio. Cafodd ei nodi hefyd y gallai llechen lan, os yw'n cael ei gynnig yn unig ddull lliniarol, yn llai ffafriol am y byddai'n golygu bod myfyrwyr yn treulio blwyddyn ychwanegol yn astudio gyda'r ffioedd a chostau sydd ymhlyg yn hynny.

14. Nododd nifer fach o gydweithwyr y dylai'r camau a oedd eisoes wedi'u rhoi yn eu lle fod yn ddigon lliniarol.

15. Mewn achos lle na fyddai ail-geisio o reidrwydd yn lleddfu sefyllfa lle mae gan fyfyrwyr amgylchiadau difrifol parhaus, ni fyddai’r myfyrwyr yn gymwys am drefn Drws Trugaredd i’w codi 2%. Roedd cyfarfod wedi'i drefnu'r wythnos ddilynol i grŵp rheoliadau Corona a gofynnir iddo edrych eto ar y camau y gellid eu cymryd yn achos myfyrwyr a chanddynt amgylchiadau arbennig dwys eithriadol.

16. Cynigiwyd ymestyn y cyfnod ailsefyll atodol i dair wythnos, yn dechrau wythnos yn gynharach ar 9 Awst ac yn para tan 26 Awst. Byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i adrannau osod dyddiadau cau a byddai Bwrdd Arholi'r Senedd yn cael ei symud o'r 9$^{fed}$ i'r 16$^{eg}$ Medi i roi mwy o amser i'r marcio a'r broses arholi.

**PENDERFYNWYD**

17. Trwy godi dwylo bod y Senedd yn cymeradwyo'r cynigion ynghylch y diwygiadau i reoliadau am 2021, gyda dwy bleidlais yn erbyn ac un bleidlais yn cael ei hatal [**GWEITHREDU:** Y Cofrestrydd Academaidd].

18. Cafodd y cynnig i ymestyn y cyfnod ailsefyll atodol i dair wythnos, gan ddechrau wythnos yn gynharach ym mis Awst, ac i gynnal Bwrdd Arholi'r Senedd wythnos yn hwyrach ym mis Medi ei gymeradwyo'n unfrydol [**GWEITHREDU:** Y Cofrestrydd Academaidd].

KRB 08/02/21